SL(5)518 – Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 2) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf").

Mae Rhan 1 o'r Atodlen honno'n rhestru'r adar y gellir eu lladd neu eu cymryd y tu allan i'r tymor caeedig. Diffinnir y tymor caeedig yn adran 2(4) o'r Ddeddf.

Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r cofnod ar gyfer Gŵydd Dalcenwyn (Anser Albifrons) yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, fel bod Gŵydd Dalcenwyn yr Ynys Las wedi'i heithrio o'r Atodlen honno. Effaith y gwelliant hwn yw ei gwneud yn drosedd yng Nghymru (o dan adran 1 o'r Ddeddf) i ladd neu gymryd (neu anafu wrth geisio lladd) Gŵydd Dalcenwyn yr Ynys Las y tu allan i'r tymor caeedig i'r Ŵydd Dalcenwyn.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

1. Mae anghysondebau yn ystyr y testun Cymraeg a Saesneg yn nhrydydd paragraff y Nodyn Esboniadol. Mae'r testun Cymraeg yn nodi bod erthygl 2 yn diwygio'r cofnod ar gyfer Gŵydd Dalcenwyn yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, felly nid yw'r cofnod hwnnw'n gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru. Nid dyna'r achos. Mae'n golygu bod Gŵydd Dalcenwyn yr Ynys Las wedi'i heithrio o'r Atodlen honno.

Yn ail, yn y testun Cymraeg, mae'n nodi mai effaith y gwelliant yw ei gwneud yn drosedd yng Nghymru (o dan adran 1 o'r Ddeddf) i ladd neu gymryd (neu anafu wrth geisio lladd) unrhyw isrywogaeth o'r Ŵydd Dalcenwyn, yn hytrach nag enwi Gŵydd Dalcenwyn yr Ynys Las yn benodol.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod.